24 Chwefror 2021

I bwy bynnag a fynno wybod,

Pwnc: Pleidlais Ardal Gwella Busnes Caernarfon

Mewn Ardal Gwella Busnes (AGB / BID), mae busnesau lleol yn arwain ac yn cydweithio â phartneriaid er mwyn ffurfio grŵp i fuddsoddi arian a gwella ardal. Mae'n nhw'n rhan o fframwaith cyfreithiol. Nod AGB yw gwella ardal benodol fel canol trefi a dinasoedd, drwy ddarparu gwasanaethau sy'n ychwanegol at yr hyn sydd ar gael eisoes.

Dywedodd Hannah Blythyn AS, Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru: "Mae gan Ardaloedd Gwella Busnes rôl allweddol i'w chwarae mewn adferiad canol ein trefi a'n dinasoedd. Gobeithiaf weld canlyniadau llwyddiannus ar gyfer y rheiny sy'n cyrraedd pleidleisiau y tymor nesaf ac i barhau i weithio gyda nhw yn y dyfodol".

Agorodd pleidlais AGB Caernarfon ar gyfer y tymor pum mlynedd nesaf ar 4ydd o Chwefror a fe fydd yn cau ar 4ydd o Fawrth. Fe fydd cefnogi'r AGB, o dan arweiniad HWB Caernarfon, yn gweld buddsoddiad o dros £545,000 yn y dref. Rydym yn annog busnesau Caernarfon i gefnogi'r AGB.

Mae rhagor o wybodaeth ar yr AGB / BID i'w weld fan yma:
Ardaloedd Gwella Busnes | LLYW.CYMRU;

Yn gywir,

Cyng Gareth Thomas, Aelod Cabinet Datblygu'r Economi a Chymuned Cyngor Gwynedd

Cyng William Tudor Owen, Maer, Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon